**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Gorffennaf 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** **Diweddariad Archwilio Mewnol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn (atodiad ynghlwm) yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gynhaliwyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I ddarparu gwybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Dylai'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol a phenderfynu a oes angen unrhyw sicrwydd pellach ar adroddiadau archwilio.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad hyd at fis Mehefin 2018 ar:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar h.y. Cludiant i Ddysgwyr ac Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion;
- Cynnydd ar waith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018-19;
- Cynnydd ar weithredu camau gwella; a
- Diweddariad ar berfformiad yr Adain Archwilio Mewnol yn erbyn safonau gosod.

Ers mis Ebrill 2018, mae pob cam archwilio mewnol sydd yn weddill a chamau newydd yn cael eu cofnodi ar system prosiect corfforaethol a rheoli perfformiad (Verto). Mae yna 85 o gamau archwilio mewnol wedi'u cofnodi ar y system ar hyn o bryd. Mae'r system yma'n galluogi uwch reolwyr a chynrychiolwyr gwasanaeth i fonitro cynnydd wrth fynd i'r afael â chamau sy'n weddill a darparu diweddariad ar gynnydd.

Mae Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn monitro camau sydd wedi'u cwblhau ac yn atgoffa gwasanaethau i'w diweddaru bob chwarter yn unol â gofynion adrodd perfformiad corfforaethol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â’r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Dim angen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae’r gwaith archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i’r cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.